**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Derek Walker
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

5 Ebrill 2024

Annwyl Derek

Cyn y sesiwn graffu sydd wedi'i threfnu gyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar 3 Mehefin, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu rhywfaint o wybodaeth gychwynnol yn ysgrifenedig ar y canlynol:

- Eich blaenoriaethau ar gyfer eich tymor fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys y broses yr aethoch drwyddi i'w cyrraedd;
- Unrhyw newidiadau a wnaethoch i strwythurau staffio a ffyrdd o weithio eich swyddfa ers eich penodiad;
- A ydych wedi datblygu unrhyw amcanion a/neu ddangosyddion perfformiad allweddol, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor yn ein hadroddiad cyn penodi;
- Sut mae eich swyddfa'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru, gan gynnwys a allai'r berthynas hon fod wedi newid ers i chi ddechrau eich swydd a sut.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych ac i gwrdd â chi yn bersonol ym mis Mehefin ar gyfer y sesiwn graffu. Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb cyn gynted â phosibl ac erbyn 15 Mai fan bellaf. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch yn uniongyrchol â'r Tîm Clercio i gadarnhau logisteg ar gyfer y cyfarfod.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament